Teitl adroddiad thematig: Adolygiad o Gynlluniau Cydraddoldeb Anabledd ac arfer mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, Mai 2011

Estyn
Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all

Mae disgyblion mewn ysgol gynradd yn Sir y Fflint, sy'n defnyddio cadair olwyn, yn cyfrannu at archwiliad o hygyrchedd.

Cyd-destun

Fel rhan o arfarnu hygyrchedd yr ysgol, gofynnodd ysgol yn Sir y Fflint i ddisgyblion sy'n defnyddio cadair olwyn gymryd rhan ac arolygu'r ysgol i ddarganfod pa mor hawdd ydoedd iddo gael mynediad i adeilad a thir yr ysgol.

Gweithredu

Penderfynodd y disgybl a'i gynorthwyydd cymorth dysgu (CCD) deithio o gwmpas yr ysgol gyda'i gilydd i wirio pa feysydd yr oedd yn hawdd cael mynediad iddynt a pha rai oedd yn fwy anodd. Cytunodd y CCD i wneud nodiadau iddo.

Teithiodd y disgybl o gwmpas yr ysgol, y tu mewn a'r tu allan, yn ei gadair olwyn, gyda'i CCD. Lluniodd y rhestr ganlynol o awgrymiadau:

- ramp wrth y drws ffrynt;
- dolenni arbennig er mwyn iddo allu agor drysau;
- mynd yn gyflymach yn y gadair olwyn o gwmpas yr ysgol;
- llwybr at y pwll gan ei fod yn anwastad ac mae'r olwynion yn mynd yn sownd;
- gostwng y tywelion papur neu rywbeth i hongian tywel llaw arno yn y toiledau;
- ffordd haws o gael ei gadair olwyn allan;
- gemau ar y cae chwarae;
- gwneud ffisiotherapi yn lle addysg gorfforol weithiau;
- gosod ei bensil yn agosach at ei gynhalydd llyfr; a
- rhywbeth i wneud ei lawysgrifen yn daclusach.

Canlyniad

Ymatebodd yr ysgol yn gyflym iawn i ddarparu'r hyn yr oedd y disgybl wedi gofyn amdano, ac ystyriodd fod yr ymagwedd hon yn arwain at archwiliad mynediad gwybodus iawn wedi'i lywio'n uniongyrchol gan y disgybl, a wnaeth gryfhau cynllunio gweithredu'r ysgol ar gyfer anabledd.

Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adroddiad thematig

Caerffili Ysgol Gynradd Sant Iago Ysgol a Chanolfan Adnoddau Caeau'r Drindod **Sir Ddinbych** Ysgol Christchurch Ysgol Arbennig Tir Morfa Ysgol Glan Clwyd Ysgol Plas Cefndy **Sir y Fflint** Bryn Deva Ysgol Arbenigol Maes Hyfryd Ysgol Uwchradd Castell Alyn Bryn Tirion	Canolfan Ddysgu/Learning Centre **Sir Benfro** Ysgol Gynradd CG Sant Marc Ysgol Bro Gwaun Ysgol Arbennig Portfield Neyland **Caerfyrddin** Ysgol Gynradd Brynteg Ysgol Arbennig Heol Goffa Ysgol Uwchradd y Frenhines Elizabeth a Chanolfan Elfed	Ysgol Uwchradd Glan y Môr Canolfan Addysgu a Dysgu Llanelli Canolfan Ddydd Rhyd y Gors **Ceredigion** Llwyn yr Eos Ysgol Gymraeg Aberystwyth **Bro Morgannwg** Ysgol Gynradd Cogan Ysgol Gyfun Y Barri Ysgol Maes Dyfan Fferm Ymddiriedolaeth Amelia